

# CAERDYDD 2030

**GWELEDIGAETH DDENG MLYNEDD**
**AR GYFER PRIFDDINAS O DDYSGU A CHYFLEOEDD**

UCHELGAIS PRIFDDINAS

CARDIFF CAERDYDD

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Yr Achos dros Newid | 2 |
| Cyd-destun | 4 |
| Gweledigaeth a Gwerthoedd | 6 |
| Y Canlyniadau a Ddymunir | 7 |
| **Themâu** | 8 |
| Thema: Cyfrifoldeb a rennir a phartneriaeth | 8 |
| Thema: Cyfranogiad ystyrlon gan blant a phobl ifanc | 8 |
| **Amcanion** | 9 |
| Amcan: Hawl i ddysgu | 10 |
| Amcan: Iechyd a lles dysgwyr | 12 |
| Amcan: Cyflawni Cwricwlwm i Gymru 2022, yng Nghaerdydd | 14 |
| Amcan: Gweithlu addysg sydd gyda'r gorau yn y byd | 16 |
| Amcan: Amgylcheddau dysgu o safon uchel | 18 |









# Rhagair

Yn 2016 lansiwyd Caerdydd 2020, gweledigaeth wedi'i hadnewyddu ar gyfer addysg a dysgu yn y ddinas. Mae'r weledigaeth hon wedi cynnig fframwaith cryf ar gyfer gwelliannau addysgol, ac yn adlewyrchu cryfderau gwaith partneriaeth yn y flaenoriaeth allweddol hon i Gaerdydd.

Er ein bod yn falch o'r cynnydd sydd wedi'i wneud, rydym yn cydnabod bod sawl her yn dal i fod os ydym am sicrhau bod addysg yng Nghaerdydd yn gwasanaethu pob un o'n dysgwyr, a'i bod yn gallu addasu ac ymateb i newidiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a thechnolegol dros y 10 mlynedd nesaf. Rydym hefyd yn cydnabod y dirwedd bolisi newydd yn y maes addysg, a hoffwn sicrhau bod Caerdydd yn chwarae rhan, fel prifddinas Cymru, yn y rhaglen diwygio addysg genedlaethol ehangach.

Mae gennym uchelgeisiau mawr ar gyfer dyfodol addysg yng Nghaerdydd, ac yn y strategaeth hon rydym yn nodi ein cyd-weledigaeth a'n hymrwymiad i weithredu mewn perthynas â phum amcan cyffredinol. Mae dwy thema'n sail i'n gwaith: cydweithio a chyd-gyfrifoldeb, a chydnabod hawliau plant a phobl ifanc.

Dyma'n hymrwymiad ni i chwarae ein rhan i gyflawni'r rhagoriaeth sydd ei hangen ar Gaerdydd mewn addysg a dysgu. Mae'r weledigaeth hon yn rhoi lles ein plant wrth galon yr hyn a wnawn: gan gydnabod bod canlyniadau ein plant hefyd yn cael eu siapio y tu allan i furiau'r ysgol. Ein nod yw gwneud Caerdydd yn ddinas o ddysgu a chyfleoedd i bawb.

Y Cynghorydd Huw Thomas,
Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd

Y Cynghorydd Sarah Merry,
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

Amanda Coffey
Cadeirydd, y Bwrdd Datblygu Addysg

Fahadi Mukulu
Cadeirydd, Cyngor Ieuenctid Caerdydd

Jane Jenkins,
Cadeirydd, Cynhadledd Penaethiaid Cynradd

Cath Bradshaw
Cadeirydd, Cynhadledd Penaethiaid Uwchradd

Fiona Simpson
Cadeirydd, Cynhadledd Penaethiaid Ysgolion Arbennig

Karen Dell'Armi
Cadeirydd, Cymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd

# Yr Achos dros Newid

Fel prifddinas Cymru, mae Caerdydd yn ddinas falch a llewyrchus sydd â lles a ffyniant ei phlant, pobl ifanc a chymunedau wrth ei chalon. Rydym eisiau i Gaerdydd gael ei hadnabod fel dinas sy'n hyrwyddo a chyflawni addysg a dysgu o safon uchel, fel yr allwedd i lwyddiant yn y ddinas ac mewn byd sy'n newid yn gyflym. Mae Caerdydd hefyd eisiau bod y ddinas gyntaf yng Nghymru i gyflawni statws Dinas sy'n Dda i Blant Unicef, lle mae hawliau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu cydnabod a'u parchu, ac yn lle gwych i gael eich magu.

Mae Caerdydd yn ddinas fyd-eang lle mae amrywiaeth yn cael ei chydnabod a'i gwerthfawrogi. Mae mwy na 118 o ieithoedd yn cael eu siarad yn y ddinas. Caerdydd hefyd yw cartref y gymuned fwyaf yng Nghymru o siaradwyr Cymraeg. Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg ac amlieithrwydd fel nodwedd unigryw yn hunaniaeth Caerdydd.


Gallwn fod yn falch o'n cyd-gyflawniadau ar draws y system addysg dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Rhan fawr o'r hyn y mae angen i ni ei wneud dros y 10 mlynedd hyd at 2030 yw atgyfnerthu ac ehangu'r cynnydd rydym wedi ei wneud ers lansio Caerdydd 2020. Rydym yn ystyried y parhad yma yn gryfder; mae llawer o'r systemau addysg mwyaf llwyddiannus wedi cael budd o ddull sefydlog a chyson o wella dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod y bydd addysg yn 2030 yn edrych yn wahanol iawn i heddiw - ond mae'n anodd rhagweld yr union newidiadau a ddaw. Fel mae'r Athro Mick Waters wedi dadlau yn ei adolygiad o'r proffesiwn addysgu yng Nghymru, mae angen "ailfeddwl" sut y gallai'r system addysg edrych yn 2030 ar frys. Mae'n tynnu sylw at y ffaith nad yw'r rhan fwyaf o'n dull presennol o drefnu ein system addysg wedi newid ers canol y 19eg ganrif.

Bydd yr 'ailfeddwl' yma yn galw am lefelau sylweddol uwch o arloesi dros y 10 mlynedd nesaf wrth i ni barhau i godi uchelgeisiau ac ailffocysu ymdrechion ar roi mynediad i bob plentyn a pherson ifanc i'r profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo, waeth fel fo'u huchelgeisiau personol.  Byddwn yn hyrwyddo ac yn annog dinasyddion byd-eang da sy'n gofalu am ei gilydd, eu cymunedau a'r byd o'u cwmpas, yn cydweithio i ddatrys problemau ar draws ffiniau, yn gweithio'n galed i gyflawni amcanion ac yn datblygu gwydnwch yng ngwyneb ansicrwydd a newid.





Mae'r ailddatganiad hwn o weledigaeth addysg Caerdydd yn adeiladu ar ymgysylltu ac ymgynghori helaeth gydag arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, addysgwyr ehangach, partneriaid a rhanddeiliaid, ynghyd â llawer o blant a phobl ifanc, rhwng Ionawr a Gorffennaf 2019. Mae'n ceisio atgyfnerthu cyflawniadau Caerdydd 2020 ond hefyd yn nodi cwmpas ehangach ac uchelgais uwch ar gyfer dysgu yng Nghaerdydd yn y dyfodol. Mae hyn yn cofleidio dysg y tu hwnt i waliau ysgol statudol ffurfiol, ac yn ceisio atgyfnerthu safle ysgolion mewn perthynas â dysgu ledled y ddinas yn ehangach. O dan bum Amcan allweddol, mae'n llywio, ar lefel uchel, y camau y credwn y bydd angen eu cymryd i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer addysg yng Nghaerdydd hyd at 2030. Bydd y camau i gyflawni'r Amcanion hyn yn seiliedig yn gadarn ar ddwy thema allweddol; cyfrifoldeb a rennir a phartneriaeth, a chydnabod hawliau plant a phobl ifanc ym mhopeth a wnawn.





# Cyd-destun

Mae addysg yng Nghaerdydd yn un o brif flaenoriaethau'r ddinas. Mae Uchelgais Prifddinas Cyngor Caerdydd yn ymrwymo i ddatblygu economi Caerdydd a gwneud y ddinas yn lle gwych i drigolion, gweithwyr, myfyrwyr ac ymwelwyr. Cyflawnir hyn drwy ffocws parhaus ar wella a buddsoddi mewn addysg a helpu pobl ifanc, yn arbennig y rheini o gymunedau difreintiedig, i mewn i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Mae Cynllun Lles 2018-23 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn cynnwys ymrwymiadau gan arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghaerdydd i sicrhau bod Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu, ac yn cydnabod taw addysg yw'r buddsoddiad pwysicaf yn economi'r ddinas a'r ffordd sicraf allan o dlodi i unigolion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod 'dyletswydd lles' ar gyrff cyhoeddus gyda'r bwriad o gyflawni saith amcan lles cenedlaethol i Gymru; Cymru sy'n llewyrchus, yn gydnerth, yn iachach, yn fwy cyfartal, yn meddu ar gymunedau cydlynol, diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus, ac sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Er mwyn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at yr amcanion lles cenedlaethol hyn, mae Cyngor Caerdydd a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd wedi cytuno ar saith Amcan Lles lleol ategol:

- Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
- Cymunedau diogel, hyderus a grymus
- Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn
- Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
- Cefnogi pobl allan o dlodi
- Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
- Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

Dros y ddegawd ddiwethaf, tyfodd Caerdydd gan tua 11 %, neu 34,600 o bobl. Disgwylir i'r twf hwn barhau ac i boblogaeth y ddinas dyfu gan 20 %, neu tua 74,500 o bobl, dros yr 20 mlynedd nesaf. Golyga hyn mai prifddinas Cymru yw'r ddinas fawr sy'n tyfu gyflymaf yng ngwledydd Prydain, a disgwylir i'w phoblogaeth dyfu'n fwy na phob un o'r 21 o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru gyda'i gilydd.



Ni fydd y twf hwn yn y boblogaeth wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws pob grŵp oedran, a disgwylir i nifer y bobl ifanc yng Nghaerdydd gynyddu gan 23.3 % dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y system addysg ac yn gofyn am fwy o leoedd ysgol ac athrawon.

Mae gan Gaerdydd boblogaeth amrywiol o blant a phobl ifanc. Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan chwarter (24 % ) o boblogaeth pobl ifanc Caerdydd ethnigrwydd nad yw'n wyn, ac mae ychydig yn llai nag un o bob deg person ifanc 3-15 oed yng Nghaerdydd yn nodi nad Cymraeg neu Saesneg yw eu prif iaith.

Mae Caerdydd yn gartref i rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru - yn ddaearyddol mae yna grynodiad o amddifadedd yn 'arc ddeheuol' y ddinas. Mae tua 35,500 o blant a phobl ifanc yn byw yn yr 'arc ddeheuol'. Gall cael eich magu mewn tlodi gael effaith niweidiol a pharhaus ar ragolygon a lles plentyn.

Fel yn genedlaethol, mae bwlch sylweddol mewn canlyniadau addysgol rhwng disgyblion o deuluoedd incwm isel a'r rheini o gefndiroedd mwy cefnog yng Nghaerdydd. Yn 2018/19 roedd mwy nag un o bob pum (21.2 % ) disgybl ysgol 5-15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Gyda ffocws ar draws Caerdydd ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y ddinas, mae angen ymdrech fawr i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r gweddill.

# Diwygio Addysg yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod 'cenhadaeth genedlaethol' uchelgeisiol ar gyfer addysg a fydd yn llywio a siapio gwaith yng Nghaerdydd dros y 5 i 10 mlynedd nesaf. Wrth ei gwraidd fydd dylunio a datblygu'r cwricwlwm newydd sydd wedi'i arwain gan ysgolion ledled Cymru, gan gynnwys ysgolion arloesol yng Nghaerdydd.

Dros y 3 blynedd nesaf bydd angen i ysgolion weithio tuag at y Cwricwlwm i Gymru 2022 ac ymgysylltu â phartneriaid y ddinas i ddatblygu profiadau ac adnoddau dysgu ysbrydoledig a chymhellol i bobl ifanc yng Nghaerdydd.

Ochr yn ochr â datblygu cwricwlwm newydd, mae newidiadau eraill ar y gweill ym myd addysg:

- Dull cenedlaethol newydd o ddysgu proffesiynol i gefnogi datblygiad gyrfaol athrawon.
- Cyflwyno safonau proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arwain ac Academi Genedlaethol newydd ar gyfer Rhagoriaeth Addysgol i gefnogi ac ysbrydoli arweinwyr.
- Fframwaith cyflog ac amodau athrawon newydd 'a wnaed yng Nghymru'.
- Gweithredu'r diwygiadau i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol drwy'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Datblygu a gweithredu fframwaith Asesu a Gwerthuso newydd.
- Gweithredu diwygiadau i Addysg Gychwynnol i Athrawon i atgyfnerthu partneriaethau ysgolion a phrifysgolion.

Yn sail i'r holl newidiadau hyn mae ffocws parhaus ar ddatblygu ysgolion fel sefydliadau dysgu a datblygiad parhaus system ysgol sy'n hunan-wella lle mae ysgolion wrth wraidd y broses o arwain a siapio gweithrediad pob diwygiad, gyda chefnogaeth haen ganolog effeithiol o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol sy'n hwyluso cydweithredu rhwng ysgolion a rhannu arfer gorau.



## Gweledigaeth

Mae'r holl blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd yn cael addysg o safon uchel ac yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a nodweddion sy'n eu galluogi i fod yn llwyddiannus yn bersonol, yn economaidd gynhyrchiol ac yn ddinasyddion byd-eang.

## Gwerthoedd

Rydym yn ymrwymedig i:

- Ddatblygiad dysgwyr hapus, hyddysg a gwydn drwy ganolbwyntio ar gyrhaeddiad academaidd, lles personol a chynnydd y tu allan i'r ysgol.
- Cyfle cyfartal, gan hyrwyddo a dathlu llwyddiant a chyfleoedd bywyd pob plentyn a pherson ifanc.
- Parchu hawliau pob plentyn a pherson ifanc, gwrando'n astud arnynt a'u cynnwys ym mhopeth a wnawn.
- Cefnogi rhieni, gofalwyr a theuluoedd fel addysgwyr cyntaf a mwyaf hirdymor eu plant.
- Hyrwyddo lles emosiynol, meddyliol a chorfforol plant, pobl ifanc a'n gweithlu addysg.
- Codi dyheadau plant a phobl ifanc a'n disgwyliadau ni o ran hyn y gallant ei wneud, waeth beth fo'u cefndir.
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'n treftadaeth/diwylliant Cymreig a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o lawer.
- Cofleidio amrywiaeth y ddinas, gan ddangos goddefgarwch a pharch.
- Parchu a diogelu ein hamgylchedd naturiol, i blant a phobl ifanc heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.
- Rhannu gwybodaeth, arferion a dysg yn agored a chydweithredol.

# Y Canlyniadau a Ddymunir

Byddwn yn cymryd cam ymlaen gyda'n huchelgais ar gyfer 2030 ac yn gwneud Caerdydd yn ddinas lle mae pob plentyn a pherson ifanc:

- Yn ymwybodol o'u hawliau, yn gallu cymryd rhan, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ar bolisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Yn ddinasyddion uchelgeisiol, iach, gwydn a moesegol sy'n gofalu am eu hunain, ei gilydd a'n byd.
- Yn ddiogel ac yn meddu ar les emosiynol da.
- Yn gallu cael mynediad at addysg a dysg o safon uchel, o'r blynyddoedd cynnar i ôl-16, sy'n bodloni eu hanghenion unigol ac yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u doniau'n llawn.
- Yn barod i ddechrau addysg statudol ar ôl cael dechrau gwych i'w dysgu gartref gyda'u teulu a thrwy addysg cyn-ysgol yn ystod eu blynyddoedd cynnar.
- Yn gadael yr ysgol gynradd yn llythrennog a rhifog, yn barod i gofleidio cyfleoedd addysg a dysgu parhaus.
- Yn gadael addysg statudol gyda'r nodweddion a'r sgiliau bywyd i'w cefnogi i bontio'n llwyddiannus i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Yn gallu defnyddio a siarad Cymraeg fwyfwy yn eu bywydau bob dydd.
- Yn ddinasyddion digidol hyderus sy'n gallu ymgysylltu'n ystyrlon â thechnoleg i gefnogi eu dysgu.

Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y canlyniadau hyn drwy adolygu a gwerthuso'n barhaus gan ddefnyddio cymysgedd o dystiolaeth ansoddol, fel adborth gan ddysgwyr, rhieni, y gweithlu a phartneriaid, a mesurau meintiol fel canlyniadau cynnydd, mesurau o sgiliau allweddol fel llythrennedd a rhifedd a mesurau cyrhaeddiad eraill sy'n briodol i'r Cwricwlwm i Gymru 2022 wrth iddo ddatblygu.

Byddwn yn atgyfnerthu fframweithiau atebolrwydd, yn arbennig ar bwyntiau pontio allweddol yn nhaith y dysgwr, drwy fodelau adrodd diwygiedig a fframweithiau llywodraethu gwell.



# Themâu ac Amcanion

## Themâu

### Cyfrifoldeb a rennir dros addysg a dysgu yn y ddinas.

**Mae pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd yn cael budd o system addysg ddeinamig a chydweithredol lle mae pawb yn gyd-gyfrifol am les a chyrhaeddiad dysgwyr.**

**Mae'r holl ddarparwyr addysg, partneriaid y ddinas, rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc yn cydweithio i greu'r amodau sy'n rhoi'r cyfle i bob dysgwr gyflawni a ffynnu drwy gydol ei addysg a'i fywyd. Mae cyd-gapasiti ar gyfer gwella yn parhau i ddatblygu a thyfu, gan gynnwys pawb sy'n gallu cyfrannu at lwyddiant a chyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc o fewn, rhwng a'r tu hwnt i waliau'r ysgol.**

### Pam mae hyn yn bwysig

Dim ond gyda phawb yn cydweithio ac yn rhannu cyfrifoldeb dros addysg y trawsnewidiwn ddyfodol ein plant a phobl ifanc. Mae cydweithio a gwaith partneriaeth wedi cael effaith sylweddol ar wella addysg yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Rhaid i ni adeiladu ar y llwyddiant hwn a pharhau i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn cyfrannu amser, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yn agored i wella addysg a dysg i bawb. Rydym yn cydnabod ac yn ymrwymo i gefnogi rôl allweddol rhieni a gofalwyr fel prif addysgwyr plant.

Bydd partneriaethau dinas-gyfan yn parhau i chwarae rôl hanfodol. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae'r cyd-ymrwymiad i wneud 'Addysg yn Bwysig i Bawb' yng Nghaerdydd wedi cael effaith sylweddol. Mae partneriaethau rhwng ysgolion, y Cyngor ehangach, gwasanaethau cyhoeddus eraill, busnes, iechyd, addysg uwch a phellach, y trydydd sector a chymunedau yn hanfodol i gyfoethogi addysg i ddysgwyr yng Nghaerdydd, yn arbennig y rhai mwyaf bregus.

Mae ysgolion Caerdydd wedi bod ar flaen y gad o ran datblygu system ysgol sy'n hunan-wella ac maent wedi cydweithredu ag ysgolion eraill ledled Rhanbarth Canolbarth y De i wella canlyniadau i'n plant a phobl ifanc. Mae angen i ni adeiladu ar y gwaith hwn a'i atgyfnerthu wrth i ni symud at y cam gwella nesa, gan gydnabod bod angen ysgolion sy'n gyson wych arnom, wedi'u hategu gan gyfleoedd dysgu hyblyg, arloesol, anffurfiol a phersonol. Byddwn yn gweithio tuag at system o atebolrwydd a rennir ar gyfer deilliannau dysgu yng Nghaerdydd, gan annog tryloywder a natur agored wrth rannu canlyniadau ac arferion.

Rydym yn cydnabod bod y newid cyflymach hwn yn gofyn am ddulliau newydd o ddysgu ac addysgu. Mae angen i ni ddyfnhau cydweithrediad rhwng ysgolion a phartneriaid ledled y ddinas a gyda'r rheini sydd ar flaen y gad o ran newid technolegol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Rhaid i ni hefyd alluogi dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu haddysg a'u dysgu eu hunain, y tu hwnt i addysg statudol ac i mewn i ddysgu gydol oes.

### Cyfranogiad ystyrlon gan blant a phobl ifanc

**Rhoddir sylw ac ystyriaeth i lais ac anghenion pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd. Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ymwybodol o hawliau plant ac yn eu hyrwyddo, ac yn chwarae rôl allweddol yn parhau i wella addysg a dysgu yng Nghaerdydd.**

**Mae plant a phobl ifanc yn cael eu dathlu a'u grymuso i fod yn aelodau gweithgar o gymdeithas sifil, nawr ac yn y dyfodol. Mae cyfranogiad ystyrlon yn cryfhau gallu unigolion i ddylanwadu ar benderfyniadau a dwyn sefydliadau a llywodraeth i gyfrif am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain a chenedlaethau'r dyfodol.**

### Pam mae hyn yn bwysig

Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan yn y fenter genedlaethol Dinas sy'n Dda i Blant gan Unicef UK. Ein huchelgais yw i Gaerdydd fod yn ddinas sydd â phlant a phobl ifanc wrth ei gwraidd, lle mae hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu, ac yn lle gwych i gael eich magu. Mae'r gwaith o gynnwys plant a phobl ifanc yn eu haddysg eu hunain wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy a mwy o ysgolion yn rhan o'r Rhaglen Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, gyda phobl ifanc yn cyfrannu at ddatblygu'r weledigaeth hon ac adolygu ein cynnydd tuag at Caerdydd 2020.

Er eu bod yn 'arbenigwyr' ar eu bywydau eu hunain, mae plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu cau allan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Wrth ailfeddwl addysgu a dysgu ar gyfer yr 21ain ganrif, rhaid i ni sicrhau bod pobl ifanc, drwy gydnabod eu hawliau, yn llywio penderfyniadau a gweithgareddau sy'n cael effaith sylweddol ar eu bywydau beunyddiol. Nid oes yr un maes lle mae hyn yn bwysicach nag addysgu a dysgu.

# Amcanion

## Hawl i Ddysgu

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad i lwybrau priodol i gyfleoedd addysgu a dysgu sy'n eu galluogi i gyflawni, ffynnu a gwireddu eu breuddwydion a'u huchelgeisiau.

Nid oes yr un plentyn neu berson ifanc yn cael ei adael ar ôl.

Mae dysgu gydol oes o safon uchel, o'r blynyddoedd cynnar i ôl-16, yn sicrhau canlyniadau gwych i bob dysgwr, yn lleihau anfantais ac yn codi dyheadau i bawb. Mae dysgwyr yn cael budd o bontio di-dor o ddosbarth cyn-ysgol i ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac ymlaen i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth.

## Iechyd a lles dysgwyr

Mae plant a phobl ifanc yn barod i ddysgu ac yn gallu gwneud hynny, ac yn gallu cael mynediad yn hawdd i gefnogaeth i wella eu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol.

Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu, a hynny ers cryn amser, gyda phob plentyn yn cael plentyndod da a rhagolygon cadarnhaol i'w bywydau fel oedolion. Rydym i gyd yn cydnabod pwysigrwydd allweddol ymdeimlad o berthyn, cyfeillgarwch, perthnasau, rhieni/gofalwyr, teuluoedd a chymunedau i fywydau plant, ac yn gweithio gyda'n gilydd i feithrin yr agweddau allweddol hyn ar addysg gadarnhaol.

Pan fo angen, mae plant a phobl ifanc yn cael budd o ymyrraeth gynnar a chefnogaeth gan ysgolion a gwasanaethau amlasiantaethol effeithiol sy'n diogelu a gwella eu lles a'u helpu i ddelio â phwysau bywyd bob dydd.

## Cyflawni Cwricwlwm i Gymru 2022 yng Nghaerdydd

Mae plant a phobl ifanc Caerdydd yn cael budd o gwricwlwm ysbrydoledig, perthnasol sy'n edrych ar y byd go iawn ac sy'n bodloni eu hanghenion ac yn eu grymuso ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

Mae'r cwricwlwm yng Nghaerdydd yn cynnig cyfleoedd cadarn, ysbrydoledig, perthnasol, cyd-destunol i bob dysgwr er mwyn iddo allu bod yn ddysgwr uchelgeisiol a medrus, yn ddinesydd hyddysg moesegol, yn gyfrannwr arloesol a chreadigol ac yn unigolyn iachus a hyderus.

## Gweithlu addysg sydd gyda'r gorau yn y byd

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn manteisio ar yr athrawon a'r timau cymorth gorau, mwyaf talentog a mwyaf effeithiol yn ysgolion a lleoliadau addysg Caerdydd. Mae ein gweithlu'n frwdfrydig, egnïol, amrywiol a chynrychioliadol o'r ddinas y mae'n ei gwasanaethu, gyda set glir o werthoedd a'r gred y gall pob plentyn a pherson ifanc lwyddo.

Mae gyrfa mewn addysg yng Nghaerdydd yn ddeniadol a gwerth chweil, yn cynnig manteision gyrfaol ychwanegol unigryw a hyfforddiant yn y gwaith, ar y cychwyn cyntaf a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, sy'n cael ei frocera drwy'r rhwydweithiau partner helaeth yn y brifddinas.

Mae cyrff llywodraethu ag amrywiaeth eang o sgiliau yn gyrru rhagoriaeth yn ysgolion Caerdydd.

## Amgylcheddau Dysgu o Safon Uchel

Mae lleoedd ysgol priodol o ansawdd i blant a phobl ifanc sy'n ateb anghenion poblogaeth gynyddol a newidiol Caerdydd. Mae ysgolion yn cynnig amgylchedd dysgu diogel ac ysbrydoledig ac yn meddu ar gysylltiadau cryf â'u cymunedau. Mae dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn cael ei ymestyn drwy ddefnydd creadigol o dechnolegau digidol ac adnoddau'r ddinas a'i hamgylchedd ehangach.



# Amcan:

## Hawl i Ddysgu

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad i lwybrau priodol i gyfleoedd addysgu a dysgu sy'n eu galluogi i gyflawni, ffynnu a gwireddu eu breuddwydion a'u huchelgeisiau.

**Nid oes yr un plentyn neu berson ifanc yn cael ei adael ar ôl.**

**Mae dysgu gydol oes o safon uchel, o'r blynyddoedd cynnar i ôl-16, yn sicrhau canlyniadau gwych i bob dysgwr, yn lleihau anfantais ac yn codi dyheadau i bawb. Mae dysgwyr yn cael budd o bontio di-dor o ddosbarth cyn-ysgol i ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac ymlaen i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth.**

### Pam mae hyn yn bwysig

Mae addysg yn cael ei graddio fel y brif flaenoriaeth i blant a phobl ifanc Caerdydd yn gyson; hawl gymdeithasol a diwylliannol allweddol sy'n chwarae rôl hanfodol mewn trechu tlodi ac anfantais. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf rydym wedi parhau i weld gwelliant yn y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn ysgolion Caerdydd. Rydym wedi datblygu partneriaethau cryf a thrawsnewid ysgolion nad oeddent yn cynnig y lefel ddisgwyliedig o addysg i'w plant a phobl ifanc.

Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau'n ddigon da o hyd ar gyfer ein dysgwyr mwyaf bregus, y mae llawer ohonynt yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu mewn addysgu a dysgu.  Mae mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn yn ffocws allweddol i'r strategaeth hon.  Mae ffocws cenedlaethol hirdymor ar set gul o fesurau perfformiad ar ddiwedd yr ysgol uwchradd hefyd wedi arwain at ddiffyg dewis i lawer o ddysgwyr, opsiynau cyfyngedig ac, yn yr achosion gwaethaf, mae rhai plant a phobl ifanc wedi ei chael hi'n anodd cael mynediad cyson i addysg reolaidd sy'n bodloni eu hanghenion unigol. Yn gryno, mae gormod o blant a phobl ifanc yn methu â gwneud yn dda oherwydd eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynnwys yn ein system addysg.

We must ensure equal access to education and Rhaid i ni sicrhau mynediad cyfartal at addysgu a dysgu ar bob cam o'r daith ddysgu, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd o'r blynyddoedd cynnar i mewn i addysg gynradd ac uwchradd ac yna i addysg ôl-16, hyfforddiant a'r byd gwaith. Mae angen i ni wneud mwy i sicrhau bod gennym fodel hollol integredig o addysg a gofal plentyndod cynnar sy'n cysylltu'n well â dysgu cynnar, gofal plant, iechyd a chymorth i deuluoedd gan adeiladu ar ddarpariaeth bresennol fel Dechrau'n Deg a'r cynnig Gofal Plant i gefnogi'r pontio o'r Blynyddoedd Cynnar i'r Cyfnod Sylfaen a'r Ysgol Gynradd.

Mae hefyd angen i ni sicrhau bod y llwybrau hyn yn gweithio'n effeithiol i'r grwpiau penodol o ddysgwyr sy'n wynebu heriau dwysach o lawer - Plant sy'n Derbyn Gofal, pobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. I rai pobl ifanc bydd hyn yn ymwneud â'u cefnogi i ail-ymgysylltu ag addysg lawn-amser, sicrhau bod modelau llwyddiannus o ddarpariaeth amgen ar gael a bod pob dysgwr yn gallu cyrraedd Lefel 1 o leiaf erbyn ei fod yn 16 oed. Rhaid bod diwylliant cryf o gynhwysiant ymysg ysgolion a darparwyr addysg eraill hefyd sy'n dal a chadw diddordeb pob dysgwr.

Mae angen i ni wneud mwy i alluogi ein dysgwyr mwy abl a thalentog i gyrraedd eu potensial academaidd, ymestyn eu sgiliau a gwneud y mwyaf o'u doniau.

I ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol byddwn yn gweithredu'r diwygiadau cenedlaethol i greu cefnogaeth well a mwy cydlynol drwy ddull gweithredu mwy integredig mewn perthynas ag addysg, iechyd a gofal. Bydd clystyrau lleol o ysgolion yn chwarae rôl allweddol yn hyn o beth.





**Ymrwymiadau i weithredu**
**Byddwn yn:**

- Datblygu model Caerdydd o ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar integredig sy'n cysylltu dysgu cynnar, gofal plant, iechyd a chymorth i deuluoedd; gan rannu gwersi o ardaloedd Braenaru Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru.
- Gweithredu diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol cenedlaethol a gweithio gyda chlystyrau o ysgolion i sicrhau bod llwybrau dysgu a chymorth priodol o safon uchel ar gael i bob plentyn a pherson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Sicrhau mynediad i gontinwwm o addysg a dysgu cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar i ôl-16 mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol.
- Datblygu modelau newydd o ddarpariaeth addysg amgen i ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd rheoli galwadau cwricwlwm prif ffrwd llawn-amser.
- Datblygu amrywiaeth ehangach o lwybrau dysgu 14-19, gan gynnwys mwy o opsiynau galwedigaethol o safon uchel i fodloni galwadau economaidd dinas sy'n tyfu ac i sicrhau dilyniant i gyflogaeth â sgil a/neu Addysg Uwch.
- Cynnig cymorth a chyfleoedd targedig i ddysgwyr Mwy Abl a Thalentog drwy waith clystyrau ysgol a'r rhwydwaith SEREN i sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael cyfleoedd gwell i ymgysylltu ag Addysg Uwch a Diwydiant i gystadlu am leoedd prifysgol a swyddi.
- Datblygu modelau o gymorth a chydweithrediad ysgol-i-ysgol ymhellach i wella capasiti hunan-wella'r system ysgol yn barhaus.
- Parhau i gefnogi a herio ysgolion i wella canlyniadau addysgol i ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni, gan ddysgu wrth y rheini sydd eisoes wedi cael llwyddiant yn cau'r bylchau cyrhaeddiad hyn.

**Mesurau llwyddiant**

- Yn ôl ysgolion, mae plant sy'n dechrau ysgol yn barod i ddysgu.
- Mae pob dysgwr yn cyflawni Lefel 1 o leiaf erbyn ei fod yn 16 oed.
- Mae pob dysgwr yn symud i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ôl-16.
- Mae amrywiaeth eang o lwybrau dysgu o safon uchel, gan gynnwys opsiynau galwedigaethol, ar gael yn y ddinas i ddysgwyr 14-19 oed.
- Lefelau cyrhaeddiad gwell i ddysgwyr sy'n agored i niwed yn unol â'u gofynion, anghenion a dyheadau unigol. Yn benodol:
  - Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
  - Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol
  - Plant sy'n derbyn gofal
  - Disgyblion sy'n dechrau yn ysgolion Caerdydd â Saesneg fel iaith ychwanegol
  - Disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.
- Niferoedd uchel o Ddysgwyr Mwy Abl a Thalentog yn symud i brifysgolion traean uchaf neu sectorau cyflogaeth medrus.
- Mae pob dysgwr o oedran ysgol yn cael mynediad i addysgu a dysgu rheolaidd, priodol sy'n bodloni ei ofynion dysgu personol.

# Amcan:

## Iechyd a lles dysgwyr

Mae plant a phobl ifanc yn barod i ddysgu ac yn gallu gwneud hynny, ac yn gallu cael mynediad yn hawdd i gefnogaeth i wella eu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol.

**Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu, a hynny ers cryn amser, gyda phob plentyn yn cael plentyndod da a rhagolygon cadarnhaol i'w bywydau fel oedolion. Rydym i gyd yn cydnabod pwysigrwydd allweddol ymdeimlad o berthyn, cyfeillgarwch, perthnasau, rhieni / gofalwyr, teuluoedd a chymunedau i fywydau plant, ac yn gweithio gyda'n gilydd i feithrin yr agweddau allweddol hyn ar addysg gadarnhaol.**

**Pan fo angen, mae plant a phobl ifanc yn cael budd o ymyrraeth gynnar a chefnogaeth gan ysgolion a gwasanaethau amlasiantaethol effeithiol sy'n diogelu a gwella eu lles a'u helpu i ddelio â phwysau bywyd bob dydd.**

### Pam mae hyn yn bwysig

Mae plant a phobl ifanc yn tynnu sylw at bwysigrwydd lles yn gyson, gan ddatgan y problemau amrywiol y maent yn eu hwynebu yn aml o ran cadw'n ddiogel, cadw'n iach, rheoli perthnasau a delio â'r heriau o dyfu'n hŷn mewn cymdeithas mor anrhagweladwy a newidiol. Ac maent eisiau gweld llawer mwy o ffocws ar eu cefnogi i reoli'r heriau hyn, i helpu i adeiladu hunan-barch, lefelau uchel o ddeallusrwydd emosiynol a gwydnwch drwy gydol eu bywydau yn y dyfodol.



Mae'r Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant wedi nodi blaenoriaethau yn barod i sicrhau bod gan bob plentyn iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol da a'i fod yn gwybod sut i gadw'n iach. Rydym eisiau adeiladu ar yr ymrwymiadau hynny i sicrhau bod y system addysg gyfan yn blaenoriaethu iechyd a lles meddyliol a chorfforol ein pobl ifanc. Mae dull mwy integredig o ran addysg, iechyd a gofal yn nodwedd allweddol o'n strategaeth a'n dull gweithredu dros y 10 mlynedd nesaf.

Er bod newid cadarnhaol wedi bod o ran sut rydym yn edrych ar ganlyniadau dysgwyr, o ffocws cryf ar gyrhaeddiad academaidd i ddull mwy holistig sy'n cynnwys lles y dysgwr, mae llawer mwy i'w wneud o hyd. Plant a phobl ifanc sydd wedi gyrru hyn drwy siarad am faterion allweddol, gan gynnwys system gydlynol o gymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol. Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i wrando arnynt a newid systemau sy'n eu hatal rhag ffynnu.

Rhaid i ni hefyd beidio ag anghofio am rôl lles corfforol o ran gwella hapusrwydd a gwydnwch cyffredinol plentyn. Mae'n arwain at fanteision iechyd byrdymor a hirdymor gan gynnwys hunanhyder gwell, sgiliau cymdeithasol a gwella symptomau o orbryder ac iselder. Bydd sicrhau bod gweithgarwch corfforol rheolaidd yn arfer am oes yn gwella iechyd plant nawr ac wrth iddynt dyfu. Mae hyn yn cynnwys teithio llesol i ac o'r ysgol, gweithgarwch cyson yn y lleoliad addysg a bwyd da a maethol yn yr ysgol.

**Ymrwymiadau i weithredu**
**Byddwn yn:**

- Sicrhau bod Cymorth Cynnar a Chymorth i Deuluoedd effeithiol a hygyrch ar gael ledled y ddinas, i roi cymorth ar y cam cynharaf posib i'r rheini sydd ei angen.
- Creu un pwynt mynediad ar gyfer lles emosiynol ac iechyd meddwl sy'n cynnig mynediad i gymorth a gwasanaethau amlasiantaethol priodol.
- Sicrhau bod holl ysgolion Caerdydd yn Ysgolion sy'n Parchu Hawliau.




- Cynnig model integredig o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid, wedi'i adeiladu ar waith ieuenctid o safon uchel, i chwalu rhwystrau i ymgysylltu a chyfranogi, gan sicrhau ei fod ar gael i bawb, yn arbennig ein pobl ifanc fwyaf bregus sydd o bosib wedi profi unigedd, ymylu, ecsbloetiaeth neu wahaniaethu.
- Gwella'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i blant a phobl ifanc i'w galluogi i fod yn weithgar ac iach drwy'r cynnig Ysgolion Iach a phartneriaethau dinas-eang gyda darparwyr chwaraeon, hamdden ac iechyd a hamdden.
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy ddull gweithredu ysgol gyfan ac amgylchedd iach, gan gynnwys annog plant a phobl ifanc i symud mwy, bwyta'n dda a chael eu brechiadau, ac osgoi ysmygu.
- Cynnig cyfleoedd dinas-eang i alluogi plant a phobl ifanc i chwarae, gan wneud y defnydd mwyaf posibl o addysg awyr agored ddiogel, mannau gwyrdd a'r amgylchedd naturiol.

**Mesurau Llwyddiant**

- Mae plant a phobl ifanc yn dweud eu bod yn hapus ac iach a bod eu lles yn dda.
- Mae cymorth cyson ac effeithiol ar waith ar gyfer lles emosiynol, meddyliol a chorfforol fel y dangosir drwy sesiynau ymgynghori ac arolygon gyda phlant a phobl ifanc.
- Mae llai o blant a phobl ifanc yn datblygu problemau iechyd meddwl difrifol ac mae'r rheini sydd yn cael y cymorth gorau posibl yn y gymuned.
- Cynnydd mewn presenoldeb yn ysgolion Caerdydd.
- Gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau o ysgolion Caerdydd.



# Amcan:

## Cyflawni Cwricwlwm i Gymru 2022 yng Nghaerdydd

Mae plant a phobl ifanc Caerdydd yn cael budd o gwricwlwm ysbrydoledig, perthnasol sy'n edrych ar y byd go iawn ac sy'n bodloni eu hanghenion ac yn eu grymuso ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

Mae'r cwricwlwm yng Nghaerdydd yn cynnig cyfleoedd cadarn, ysbrydoledig, perthnasol, cyd-destunol i bob dysgwr er mwyn iddo allu bod yn ddysgwr uchelgeisiol a medrus, yn ddinesydd hyddysg moesegol, yn gyfrannwr arloesol a chreadigol ac yn unigolyn iachus a hyderus.

**Pam mae hyn yn bwysig**

Caiff y Cwricwlwm newydd i Gymru, i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, ei gyflwyno o fis Medi 2022. Rydym eisiau manteisio'n llawn ar y datblygiad hwn yng Nghaerdydd i sicrhau bod pob dysgwr yn mwynhau ei ddysgu ac yn datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r gwydnwch emosiynol sydd eu hangen arno i lwyddo mewn bywyd fel unigolyn moesegol sy'n chwarae rhan weithredol yn ei gymuned a'i gymdeithas. Dylai fod yn barod i ffynnu yn y byd gwaith a gallu addasu ac ymateb i newidiadau technolegol parhaus.

Rhaid i ni fanteisio'n llawn ar yr holl adnoddau a phrofiadau y mae'r ddinas yn eu cynnig i wneud y cwricwlwm yn 'real' yng Nghaerdydd a'i addasu i'r amrywiaeth o gyd-destunau sy'n wynebu ein hysgolion a'n dysgwyr. Bydd cyd-destunoli dysgu yn gydran allweddol o'n dull gweithredu - gan roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth hanfodol mewn cyd-destun ystyrlon, priodol a diddorol. Ni all ysgolion wneud hyn ar eu pen eu hunain - bydd angen iddynt weithio gyda phartneriaid yn y ddinas i ailfeddwl y posibiliadau a gynigir gan y cwricwlwm a datblygu profiadau newydd a diddorol i ddysgwyr.

Rydym hefyd eisiau gweld ffocws cryf ar gefnogi amlieithrwydd ac ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â'u sgiliau Cymraeg a'u datblygu, a'u cysylltiad â'n treftadaeth a'n diwylliant Cymreig.

Mae pobl ifanc yn dweud mai un o'r blaenoriaethau pwysicaf iddyn nhw yw cefnogaeth well i'w galluogi i fod yn barod ar gyfer bywyd ar ôl addysg. Mae'r Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cydnabod hyn, a phan gaiff ei gyflawni bydd yn cefnogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai mwyaf bregus, i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arno i reoli pob agwedd ar ei fywyd - tai, arian a chyllidebu, byw'n annibynnol, perthnasau personol a theuluol, addysg rhyw, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydlyniad cymunedol, byw'n gynaliadwy a dinasyddiaeth.

Mae pobl ifanc hefyd wedi datgan yn glir eu bod eisiau arwain y gwaith o hyrwyddo'r agenda cynaliadwyedd ac annog pawb sy'n gweithio yn y system addysg i ystyried sut y gallwn hyrwyddo strategaethau sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gyda mwy o frys.

**Ymrwymiadau i weithredu**
**Byddwn yn:**

- Sicrhau bod pob lleoliad addysg ac ysgol a gynhelir yn defnyddio'r Cwricwlwm i Gymru 2022 ym mhob grŵp blwyddyn hyd at a chan gynnwys Blwyddyn 11 erbyn 2026.
- Manteisio ar adnoddau'r ddinas i ddod â 'Chwricwlwm Caerdydd' yn fyw i ddysgwyr - drwy brofiadau dysgu ysbrydoledig a dilys a 'heriau dinas' sy'n ddylanwadol a pherthnasol i'r byd modern.




- Gwella cyfleoedd i ddysgwyr yn ysgolion Caerdydd ddatblygu sgiliau bywyd fel rhan o'r cwricwlwm, gyda chefnogaeth partneriaid Addewid Caerdydd, y Gwasanaeth Ieuenctid ac asiantaethau ehangach.
- Datblygu cyfres sy'n datblygu'n barhaus o brojectau a gymeradwyir gan y diwydiant o ran cymhwysedd digidol, a fydd yn gwella sgiliau athrawon a dysgwyr fel eu bod yn gallu ymateb i fyd cynyddol ddigidol.
- Datblygu 'Pasbort i Ddinas Caerdydd' a fydd yn sicrhau y gall pob plentyn gael mynediad i amrywiaeth eang o brofiadau allgwricwlaidd ledled y ddinas, er enghraifft mynediad i ddigwyddiadau diwylliannol/chwaraeon, sefydliadau'r ddinas a safleoedd treftadaeth.
- Ymrwymo i helpu i atal newid yn yr hinsawdd drwy annog a chefnogi ysgolion a phartneriaid i gydweithio i ddatblygu projectau arloesol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac sy'n canolbwyntio ar warchod yr amgylchedd naturiol a chynaliadwyedd ein planed.
- Gweithio gyda phartneriaid diwylliannol i gefnogi dysgwyr i ymgysylltu â diwylliant Cymreig ar draws y cwricwlwm a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

## Mesurau llwyddiant

- Mae canlyniadau dysgwyr yng Nghaerdydd, yn ôl mesuriadau fframweithiau atebolrwydd ac asesu newydd i Gymru, yn uchel ac yn parhau i wella wrth i ni nesáu at 2030.
- Mae canlyniadau dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i wella ac mae plant a phobl ifanc yn dweud eu bod yn mwynhau ac yn teimlo eu bod yn perthyn i'n diwylliant a'n cymunedau Cymreig.
- Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n teimlo'n barod ar gyfer y byd gwaith ac sy'n gallu dilyn eu breuddwydion a'u huchelgeisiau unigol.
- Mae dysgwyr yn mynegi hyder eu bod yn cael amrywiaeth eang o brofiadau i ddatblygu'r sgiliau bywyd go iawn sy'n berthnasol i'w dyfodol.
- Mae gweithwyr addysg proffesiynol yn mynegi hyder o ran eu gallu i gyflawni'r cwricwlwm ac i gydweithredu y tu allan i'r ysgol i gynnig profiadau dysgu cyffrous a dilys.
- Mae'r cwricwlwm yn paratoi dysgwyr yn well ar gyfer bywyd ac mae pobl ifanc yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth bontio at annibyniaeth.
- Mae'r cwricwlwm yng Nghaerdydd yn cynnwys ymrwymiad clir i helpu i leihau newid yn yr hinsawdd.



# Amcan:

# Gweithlu addysg sydd gyda'r gorau yn y byd

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn manteisio ar yr athrawon a'r timau cymorth gorau, mwyaf talentog a mwyaf effeithiol yn ysgolion a lleoliadau addysg Caerdydd.

Mae ein gweithlu'n frwdfrydig, egnïol, amrywiol a chynrychioliadol o'r ddinas y mae'n ei gwasanaethu, gyda set glir o werthoedd a'r gred y gall pob plentyn a pherson ifanc lwyddo.

**Mae gyrfa mewn addysg yng Nghaerdydd yn ddeniadol a gwerth chweil, yn cynnig manteision gyrfaol ychwanegol unigryw a hyfforddiant yn y gwaith, ar y cychwyn cyntaf a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, sy'n cael ei frocera drwy'r rhwydweithiau partner helaeth yn y brifddinas.**

**Mae cyrff llywodraethu ag amrywiaeth eang o sgiliau yn gyrru rhagoriaeth yn ysgolion Caerdydd.**

## Pam mae hyn yn bwysig

Athrawon sy'n cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau dysgwyr, a chael pethau'n iawn i'n plant a'n pobl ifanc sy'n gyrru'r proffesiwn. Mae gallu, gwybodaeth, angerdd, ymrwymiad a brwdfrydedd athrawon a chynorthwywyr addysgu yn hanfodol i lwyddiant dysgwyr.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad athrawon o ran gwella canlyniadau dysgwyr. Wrth i ni geisio ateb heriau'r Cwricwlwm i Gymru 2022, y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol a galwadau sgiliau gweithluoedd y dyfodol, rhaid i'n gweithlu addysg gael y cyfle i addasu, uwch-sgilio a rhagori yn yr hyn a wnânt.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr addysg y dyfodol yng Nghaerdydd naill ai ar gam cynnar yn eu gyrfaoedd neu heb ddechrau hyfforddi eto. Bydd denu'r dalent orau i weithio mewn addysg ac yna gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddatblygu yn hanfodol. Cyn bwysiced fydd cefnogi a datblygu staff ar bob lefel ar draws y maes addysg - cynorthwywyr addysgu, staff cymorth, gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant proffesiynol ac athrawon ôl-16 sydd i gyd yn rhan allweddol o'n gweithlu addysg.

Mae hefyd angen i ni alluogi cyrff llywodraethu ysgolion i gefnogi a herio i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau. Bydd angen i gyrff llywodraethu fod yn gynrychioliadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu a chael setiau sgiliau a chymwyseddau amrywiol i fod yn effeithiol iawn yn eu rolau. Mae angen i ni gydweithio i atgyfnerthu a gwella cymorth i lywodraethwyr ac adeiladu capasiti ar draws y ddinas drwy fwy o gydweithio rhwng cyrff llywodraethu.

### Ymrwymiadau i weithredu

**Byddwn yn:**

- Datblygu holl ysgolion a lleoliadau addysg Caerdydd fel 'sefydliadau dysgu', fel ffordd allweddol o gyflawni'r cwricwlwm newydd, gan sicrhau bod timau o staff yn meddu ar y capasiti i newid ac addasu'n barhaus gan sicrhau lles a chanlyniadau cadarnhaol i'w holl ddysgwyr.
- Creu llwybrau cynnydd gyrfaol clir a chyfleoedd uwch-sgiliau a datblygiad proffesiynol i holl weithwyr addysg proffesiynol Caerdydd sy'n ystyried datblygiad 'Fframwaith Gyrfaoedd, Amodau a Chyflog newydd i Gymru'.
- Datblygu a gweithredu 'Gwarant Caerdydd' newydd - yn cynnig datblygiad proffesiynol parhaus gwell i athrawon newydd yn ysgolion Caerdydd sy'n cynnig profiadau ymarferol mewn amrywiaeth o leoliadau addysg, busnes/diwydiant a dinesig ehangach.



- Cefnogi rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon i alluogi a grymuso myfyriwr-athrawon newydd yng Nghaerdydd i gael mynediad i amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ac i ddatblygu sgiliau mwy arbenigol mewn meysydd penodol fel Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r iaith Gymraeg drwy gydol eu hastudiaethau.
- Defnyddio strategaethau rheoli talent i nodi a datblygu arweinwyr ysgol uchelgeisiol ac addawol y dyfodol a chynnig llwybrau i mewn i rolau arwain sy'n adeiladu sgiliau proffesiynol a phersonol.
- Lansio a chynnal ymgyrchoedd recriwtio arloesol i ddenu'r arweinwyr ysgol ac athrawon mwyaf dawnus i Gaerdydd, gan hyrwyddo'r manteision o fyw ac addysgu ym mhrifddinas Cymru.
- Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ysgolion drwy wella hyfforddiant i lywodraethwyr, annog cyrff llywodraethu ysgolion i feithrin gallu ar y cyd, datblygu modelau Ffederasiwn lle byddai'r rhain yn ychwanegu gwerth a datblygu ymgyrchoedd hyrwyddo a marchnata helaeth i ddenu llywodraethwyr newydd i ysgolion Caerdydd.

### Mesurau Llwyddiant

- Cynnydd yng nghyfran yr ysgolion a lleoliadau addysg sy'n cynnig profiadau dysgu da neu ragorol i blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd, a hynny ym marn y plant a'r bobl ifanc eu hunain a chyrff rheoleiddio ac archwilio allanol.
- Mae arolygon staff yn dangos bod gweithwyr addysg proffesiynol yn falch ac yn hapus i weithio yng Nghaerdydd ac yn cydnabod y cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt.
- Arweinyddiaeth well yn ysgolion Caerdydd, gydag arweinwyr ysgol o safon uchel ym mhob ysgol ar draws y ddinas, yn arbennig mewn ardaloedd o amddifadedd.
- Lleihau nifer y swyddi gwag ar gyfer staff ac arweinwyr a phrofi ein bod yn denu amrywiaeth o ymgeiswyr o safon uchel ar gyfer pob swydd sy'n cael ei hysbysebu.
- Llywodraethu o safon uchel ym mhob un o ysgolion Caerdydd, llai o rolau gwag i lywodraethwyr a chydnabyddiaeth eang o'r gwerth a'r manteision o fod yn llywodraethwr ysgol.
- Tystiolaeth o gydweithredu llwyddiannus rhwng gweithluoedd sy'n gweithredu ar draws pob cam addysg yn y ddinas.



# Amcan:

## Amgylcheddau Dysgu o Safon Uchel

Mae lleoedd ysgol priodol o ansawdd i blant a phobl ifanc sy'n ateb anghenion poblogaeth gynyddol a newidiol Caerdydd. Mae ysgolion yn cynnig amgylchedd dysgu diogel ac ysbrydoledig ac yn meddu ar gysylltiadau cryf â'u cymunedau. Mae dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn cael ei ymestyn drwy ddefnydd creadigol o dechnolegau digidol ac adnoddau'r ddinas a'i hamgylchedd ehangach.

**Pam mae hyn yn bwysig**

Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae cyflwr adeiladau ysgol yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas wedi'i drawsnewid drwy fuddsoddiad sylweddol yn yr ystâd ysgolion drwy Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys pum ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd newydd yn nwyrain a gorllewin y ddinas.  Ar yr un pryd, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i sicrhau y gall dysgwyr ledled Caerdydd fanteisio ar amgylcheddau dysgu diogel sy'n cefnogi addysgu a dysgu drwy fwy o fuddsoddi targedig i wella ansawdd cyffredinol yr ystâd ysgolion.

Drwy Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif rydym wedi gweld partneriaethau lleol yn datblygu; dull cymunedol o ddatblygu ysgolion newydd ac amgylcheddau dysgu o safon uchel. Ond mae angen i ni wneud mwy fyth. Drwy Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a buddsoddiad newydd y Cynllun Datblygu Lleol, mae gennym gyfle i ailfeddwl ysgolion a dulliau addysgu a dysgu i wella addysg i ddysgwyr yng Nghaerdydd yn unol ag anghenion y dyfodol, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru 2022.








Bydd angen i amgylcheddau dysgu gofleidio amrywiaeth o leoedd, syniadau a phobl, fel y mynna'r byd modern. Mae hyn yn cynnwys yr angen am hyblygrwydd - o ran gofod, amser, pobl a thechnoleg - sy'n gweithio heddiw ac y gellir ei addasu'n hawdd yn y dyfodol. Mae dysgu pwerus yn digwydd y tu allan i waliau'r ysgol. Mae angen i ni ymateb i hyn drwy hyrwyddo a meithrin dulliau gwahanol o ennill gwybodaeth a sgiliau.

Mae iechyd corfforol ein plant a phobl ifanc yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd meddwl a lles. Drwy'r ysgolion newydd a gaiff eu hadeiladu byddwn yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer unrhyw chwaraeon ac yn sicrhau cymaint o ofod chwarae ac addysg awyr agored â phosib, lle y bo'n bosib. Byddwn yn creu cyfleusterau arlwyo o'r radd flaenaf a fydd yn cynnig bwyd maethol ac iachus, sydd wedi'i nodi fel blaenoriaeth gan ein pobl ifanc.

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf y mae cenedlaethau'r dyfodol yn eu hwynebu. Wrth ddatblygu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig, mae angen i ni warchod ein hamgylchedd naturiol. Rhaid i adeiladau ysgol newydd, y bydd llawer ohonynt yn sefyll am genedlaethau, fod yn amgylcheddol gyfrifol ac yn effeithlon o ran adnoddau, ac ystyried yr effaith ynni a charbon. I gyflawni hyn byddwn yn archwilio a dysgu wrth bartneriaid gyda'r nod o ddatblygu'r ysgol garbon-niwtral gyntaf yng Nghymru. Ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau bod ein holl ysgolion yn ecogyfeillgar drwy fonitro a lleihau'r defnydd o ynni a blaenoriaethu datrysiadau effeithiol i leihau'r effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol.

Wrth i ni barhau i wella a datblygu'r ystâd addysg, mae angen i ni sicrhau ein bod yn barod i fodloni gofynion demograffig a chymdeithasol newidiol y ddinas. Caiff lleoedd ysgol ychwanegol, gan gynnwys cynradd, uwchradd ac arbennig, eu creu drwy Fand B a chaiff projectau targedig ychwanegol eu datblygu lle bo angen. Rydym hefyd yn ymrwymedig i barhau i ateb y galw am ysgolion Cymraeg ledled Caerdydd, gan adeiladu ar uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Ffocws allweddol i'n dull o ddatblygu Ysgolion yr 21ain Ganrif yw sicrhau bod ysgolion wrth galon eu cymunedau, a byddwn yn datblygu Ysgolion â Ffocws Cymunedol i Gaerdydd.



### Ymrwymiadau i weithredu

**Byddwn yn:**

- Cyflawni Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gan gynnwys ailadeiladu ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig neu greu rhai newydd.
- Creu ysgolion newydd, gan ystyried twf poblogaeth a datblygiad economaidd y ddinas drwy'r Cynllun Datblygu Lleol.
- Datblygu cynllun hirdymor ar gyfer Trefniadaeth Ysgolion sy'n creu glasbrint ar gyfer ein hysgolion newydd ac sy'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- Cyflawni Polisi Ysgolion â Ffocws Cymunedol i'r ddinas a dull gweithredu sy'n sicrhau hyn.
- Diweddaru a diwygio Strategaeth TGCh y Cyngor gyda llygad ar y Cwricwlwm i Gymru 2022 a buddsoddi mewn seilwaith digidol, offer a thechnolegau dysgu newydd.
- Ehangu projectau adnewyddu asedau a gwaith i wella'r ystâd bresennol. Bydd y buddsoddiad yn gwella cyflwr ysgolion ac yn sicrhau bod amgylcheddau dysgu'n addas ar gyfer y dyfodol i fodloni'r Cwricwlwm i Gymru 2022.
- Ymchwilio i ddulliau cynaliadwy ac ecogyfeillgar mewn perthynas â'r ystâd bresennol ac adeiladau newydd, gan gynnwys ystyried ysgolion carbon-niwtral ac integreiddio teithio llesol a mesurau arbed ynni yng ngwir ystyr y gair.
- Ateb yr her o ran demograffeg newidiol y ddinas i sicrhau bod darpariaeth ar gael i fodloni anghenion - gan gynnwys ffydd, y Gymraeg a lleoedd arbenigol.
- Sicrhau bod dyluniad ysgolion yn annog gofod i fwyta'n dda ac ymarfer corff yn rheolaidd.
- Agor a hyrwyddo cyfleoedd gwell i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

### Mesurau Llwyddiant

- Creu ysgolion 21ain ganrif cynaliadwy sy'n cefnogi trawsnewidiad addysg ar gyfer dysgwyr.
- Mae amgylcheddau dysgu Caerdydd yn grymuso dysgwyr i ddatblygu sgiliau digidol yn unol â datblygiadau technolegol parhaus.
- Mae cyflwr gwell ac addasrwydd yr ystâd ysgolion yn galluogi pob amgylchedd dysgu i fod yn dda.
- Mae ysgolion yn adlewyrchu anghenion y cymunedau maent yn eu gwasanaethu ac yn dod yn asedau cymunedol hygyrch fel y bo'n briodol.
- Mae ysgolion yn datgloi manteision amgylcheddau dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

